

**ssce**  
**CYMRU**



SUPPORTING SERVICE CHILDREN  
IN EDUCATION IN WALES

CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN  
ADDYSG YNG NGHYMRU



# BWLETIN MISOL

## MEHEFIN 2024



**ssce**  
**CYMRU**

 CLILC  
WLGA

# Negeseuon gan dîm SSCE Cymru...

“Roedd mis Mai yn fis prysur, ond hwyliog i dîm SSCE Cymru. Cynhaliwyd 14 o'n sesiynau galw heibio anffurfiol ar-lein. Rydym yn gobeithio y byddai'r rhai a lwyddodd i ymuno â ni ar gyfer rhai ohonynt wedi ffeindio nhw'n ddefnyddiol ac roeddem yn gallu ateb eich cwestiynau. Os hoffai unrhyw aelod o staff ysgol neu awdurdod lleol gael cymorth ychwanegol ynghylch plant milwyr mewn addysg, yna edrychwch ar ein hamserlen [sesiynau galw heibio ym mis Mehefin](#) ac ymunwch â ni yn yr un nesaf sy'n briodol. Rydym ni'n edrych ymlaen at eich gweld chi!

Tua diwedd mis Mai, roeddem allan ledled Cymru ar leoliad gyda CLECS Media, yn ffilmio yn rhai o'n Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog. Roeddem yn casglu cynnwys ar gyfer rhai ffilmiau arfer da newydd a straeon plant y Lluoedd Arfog ar gyfer ein gwefan. Bydd y ffilmiau byr hyn yn rhannu sut mae'r ysgolion hyn wedi cefnogi eu plant Lluoedd Arfog a pham ei bod yn bwysig cael cefnogaeth o'r fath ar waith. Hoffem ddweud diolch yn fawr i'r holl ysgolion a phlant / pobl ifanc y Lluoedd Arfog sy'n rhan o'r prosiect hwn. Ni allwn aros i rannu'r ffilmiau gorffenedig gyda chi i gyd yn fuan. Tan hynny, edrychwch ar [gyfnodolyn SSCE Cymru](#) am rai lluniau a dynnwyd gennym ar ddyddiau ffilmio. Pwy allwch chi ei weld a pha ysgolion?

Trwy gydol y 5 a'r 6 Mehefin eleni, cynhelir cyfres o ddigwyddiadau cofa mawr ledled y DU a Ffrainc i anrhydeddu'r personél dewr a fentrodd eu bywydau am ryddid a heddwch, wrth i ni gofio 80 mlynedd ers glaniadau Normandi. Tua diwedd mis Mehefin byddwn yn dathlu Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog. Gweler [gwefan SSCE Cymru](#) i gael manylion am ddigwyddiadau sy'n digwydd yng Nghymru. Diolch am eich cefnogaeth barhaus ac os hoffech gysylltu â'n tîm, yna gwnewch hynny drwy [SSCECymru@wlga.gov.uk](mailto:SSCECymru@wlga.gov.uk).”



**Millie**  
Rheolwr Rhaglen

**Jo**  
Swyddog Arweiniol  
Cyfranogiad

**Cara**  
Swyddog Cyswllt  
Ysgolion

**Yasmin**  
Swyddog Cyswllt  
Ysgolion

# Cyfle swydd SSCE Cymru

## Swyddog Cyswilt Ysgolion (SLO)

### DISGRIFIAD SWYDD

- Gweithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i adnabod plant y Lluoedd Arfog a chynnal cronfa ddata o gysylltiadau ysgol.
- Hyrwyddo pecyn e-ddysgu SSCE Cymru.
- Gweithio gyda lleoliadau addysg i wreiddio cefnogaeth i blant y Lluoedd Arfog:
  - Defnyddio adnoddau SSCE Cymru (Pecyn Cymorth ac Offer i Ysgolion, Canllawiau ariannu)
  - Cyflawni eu statws Ysgolion sy'n Gyfeillgar i'r Lluoedd Arfog Cymru
  - Dathlu Mis y Plentyn Milwrol
  - Mynediad at gyllid i gefnogi plant a theuluoedd y Lluoedd Arfog.
- Adnabod a hyrwyddo arferion da mewn ysgolion.

Mae SLOs yn cael eu hariannu gan:



### AM Y RÔL


- Tymor penodol (clawr mamolaeth)
- Rhan-amser (25 awr)
- Rôl genedlaethol (a gynhelir gan Gyngor Sir Penfro)
- Gweithio ystwyth

**DYDDIAD CAU: 18 Mehefin 2024**

Gellir cyfeirio ymholiadau at [SSCECymru@wlga.gov.uk](mailto:SSCECymru@wlga.gov.uk)



Cliciwch yma i gael disgrifiad swydd llawn a manylion sut i wneud cais



Mae hwn yn gyfle i'n tîm gydnabod SEREN SSCE Cymru yn gyhoeddus, a dweud diolch i blentyn y Lluoedd Arfog, aelod o staff ysgol, cydweithiwr gwaith, aelod o'r rhwydwaith neu sefydliad sydd wedi cydweithio'n gadarnhaol â ni neu wedi dangos cefnogaeth eithriadol i blant milwyr mewn addysg a'u cymuned Lluoedd Arfog lleol. Rydym yn ddiolchgar i weithio gydag unigolion a grwpiau gwirioneddol ysbrydoledig sy'n sicrhau bod plant y Lluoedd Arfog yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u dathlu yma yng Nghymru.


## Seren y mis – Mehefin 2024

Mae tîm SSCE Cymru yn ddigon ffodus i weithio ochr yn ochr â Debbie fel ein cyswllt allweddol ar gyfer plant milwyr yng Nghyngor Sir Bwrdeistref Conwy.

Mae wedi bod yn wych gweld y gefnogaeth i blant milwyr yn tyfu yn ysgolion Conwy dros y blynyddoedd diwethaf ac mae Debbie wedi chwarae rhan fawr yn hyn! Mae Debbie yn gweithio'n agos gyda SSCE Cymru a'i chydweithwyr o fewn y cyngor i ddefnyddio templed Cynllun Gweithredu Awdurdod Lleol SSCE Cymru, gan sicrhau bod plant y Lluoedd Arfog yn cael eu hystyried a'u cefnogi o safbwynt yr ALI yng Nghonwy. Mae'n gweithredu fel eiriolwr i sicrhau bod arfer da yn cael ei rannu gyda phob ysgol trwy ddiweddariadau rheolaidd yn eu bwletin ysgol.

Yn ddiweddar, trefnodd Debbie digwyddiad Mis y Plentyn Milwrol ar gyfer ysgolion â phlant y Lluoedd Arfog yn yr ALI i ddod â nifer o blant y Lluoedd Arfog hapus at ei gilydd ar gyfer bore llawn hwyl o sesiynau cerdd a gweithdy gan Amgueddfa Ffiwsilwyr Brenhinol Cymru!

Diolch am bopeth rydych chi'n ei wneud i blant Lluoedd Arfog Conwy Debbie!!



**Debbie Vaughan Roberts**  
Swyddog Datblygu Gwella Addysg  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



# Month of the Military Child Mis y Plentyn Milwrol



April/Ebrill | #MotMCCymru



**HH** HAVERFORDWEST HIGH VC SCHOOL  
**VCS** YSGOL LUNYHRADD GRH HWLFFORDD



Cliciwch yma i weld manylion gweithgareddau #MotMCCymru



Mae wedi bod yn anhygoel derbyn llawer o luniau gan ysgolion ac awdurdodau lleol, gan ddangos i ni sut y wnaethon nhw ddathlu Mis y Plentyn Milwrol!  
Plis anfonwch eich lluniau at [SSCECymru@wlga.gov.uk](mailto:SSCECymru@wlga.gov.uk)








**ssce**  
**CYMRU**

SUPPORTING SERVICE CHILDREN  
IN EDUCATION IN WALES

CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN  
ADDYSG YNG NGHYMRU


Lansiwyd menter Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog (AFFS) Cymru SSCE Cymru yn 2022. Mae ysgolion yng Nghymru yn cwblhau cyfres o weithgareddau a chamau gweithredu sy'n gysylltiedig â Rhestr Wirio Ysgolion SSCE Cymru, gan gynnwys rhai elfennau gorfodol, er mwyn cyflawni eu statws Efydd, yna Arian ac yna Aur. Yr amcanion yw ymgorffori arfer da ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog, creu amgylchedd cadarnhaol i blant y Lluoedd Arfog rannu eu profiadau ac annog ysgolion i ymgysylltu'n well â chymuned eu Lluoedd Arfog.

**Llongyfarchiadau** i bob ysgol sydd wedi cyflawni eu statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru. Hyd yn hyn, mae 26 o ysgolion wedi cyflawni eu statws AFFS Cymru. Mae 26 wedi ennill Efydd, 6 wedi ennill Arian a 4 wedi ennill Aur!!



Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru.





ssce  
CYMRU



CLILC  
WLGA

# E-ddysgu SSCE Cymru

I ddathlu Mis y Plentyn Milwrol ym mis Ebrill, lansiodd tîm SSCE Cymru becyn hyfforddi e-ddysgu newydd ar alw dwyieithog ar Gefnogi plant milwyr mewn addysg yng Nghymru!!!

Wedi'i ariannu gan Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog, mae pecyn hyfforddi e-ddysgu SSCE Cymru wedi'i gynllunio i roi'r offer a'r hyder i addysgwyr ddeall a chefnogi anghenion plant milwyr yn eu lleoliadau addysg yng Nghymru, ond gall unrhyw un a hoffai ddysgu mwy am gefnogi plant milwyr mewn addysg.

Mae'r pecyn hyfforddi AM DDIM hwn yn cynnwys naw pwnc a bydd yn cymryd tua dwy awr i'w gwblhau. Bydd eich cynnydd yn cael ei arbed fel y gallwch barhau lle gwnaethoch adael ac ailedrych ar yr hyfforddiant yn ôl yr angen.

**Y pynciau sydd wedi'u cynnwys yn yr e-ddysgu yw:**

- Cyflwyniad i SSCE Cymru
- Y Lluoedd Arfog yng Nghymru
- Profiadau plant y milwyr
- Addysg yng Nghymru
- Adnabod plant milwyr
- Iechyd meddwl a lles
- Gweithgareddau allgyrsiol
- Cyllid i gefnogi plant y milwyr
- Ymchwil a thystiolaeth.

*“Roedd clywed gan y plant yn wych.”*

*“Roedd yn ddiddorol iawn dysgu am y gwahanol symudedd, lleoli a thrawsnewidiadau y mae teuluoedd yn eu profi.”*

*“Cysylltiadau gwych y byddaf yn eu defnyddio ac yn gynhwysfawr iawn. Roeddwn i wrth fy modd â'r fideos.”*

*“Gwybodaet h a chefnogaeth ardderchog ar gael.”*

Roedd 100% o'r cyfranogwyr o'r farn bod yr e-ddysgu'n fuddiol



ARMED FORCES  
COVENANT  
LLUOEDD ARFOG  
CYFAMOD



# Rhagor o wybodaeth...

## Arolwg ADY SSCE Cymru

Mae SSCE Cymru yn cynnal arolwg gydag ysgolion yng Nghymru i gael cipolwg ar yr heriau y gallai ysgolion fod yn eu hwynebu wrth gefnogi plant milwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ac i nodi enghreifftiau o arfer da.

Amcangyfrifir y bydd yr arolwg yn cymryd rhwng 5-15 munud i'w gwblhau.

Bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei defnyddio i lywio arferion a pholisi mewn perthynas â chefnogi plant milwyr ag ADY.

**Dyddiad cau'r arolwg: 31 Gorffennaf 2024.**

 **Cliciwch yma i gwblhau'r arolwg**




## Gwobrau Plant y Lluoedd Arfog Cymru 2024

Mae'n bleser gennym gyhoeddi y byddwn unwaith eto yn gweithio gyda'r tîm Gwobrau Cyn-filwyr i gynnal ail ddigwyddiad blynyddol Gwobrau Plant y Lluoedd Arfog Cymru yn 2024!!

**Bydd categorïau enwebu ar gyfer y flwyddyn hon unwaith eto yn:**

- Cyfraniad i chwaraeon
- Gwobr gymunedol
- Llysgennad Plant y Flwyddyn
- Arwr tawel (categori oedolion).

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn bod yn noddwr y #ServiceChildrenAwards plis cysylltwch â [info@veteransawards.co.uk](mailto:info@veteransawards.co.uk)

 **Cliciwch yma i weld lluniau a fideos o Wobrau 2023**



# Digwyddiadau i ddod...

## D-DAY 80

6 Mehefin 2024

80 mlynedd ers glanio Normandi

Bydd cyfres o ddigwyddiadau coffa mawr yn y DU a Ffrainc yn anrhydeddu'r personél dewr a fentrodd eu bywydau dros ryddid a heddwch.



**Cliciwch yma am ragor o wybodaeth a deunyddiau dysgu**

### D-Day 80 Cynulliad Coffa

DYDDIAD: 6th Mehefin 2024

AMSER: 09:00-09:30

Bydd Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol y Fyddin o Gymru yn darparu gwasanaeth byw rhithwir trwy Microsoft Teams.



## ARMED FORCES DAY 29 JUNE 2024

Mae Diwrnod y Lluoedd Arfog yn gyfle i ddangos eich cefnogaeth i'r dynion a'r menywod sy'n rhan o gymuned y Lluoedd Arfog: o milwyr sy'n wasanaethu ar hyn o bryd i deuluoedd y Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a chadetaid.



**Cliciwch yma am fwy o wybodaeth am sut i gymryd rhan**

### Sioe Awyr Cymru yn cynnwys Diwrnod y Lluoedd Arfog 2024

DYDDIAD: 6 a 7 Gorffennaf 2024

LLEOLIAD: Bae Abertawe

Eleni, bydd Abertawe'n cynnal dathliadau Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog yng Nghymru yn ystod Sioe Awyr Cymru!





# Sesiynau galw heibio SSCE Cymru

NEWYDD

O fis Ebrill 2024, bob mis, bydd SSCE Cymru yn cynnal cyfres o sesiynau galw heibio anffurfiol sy'n canolbwyntio ar themâu penodol. Dewch draw i unrhyw un o'r sesiynau sydd o ddiddordeb i chi, lle bydd aelodau o dîm SSCE Cymru yn rhannu gwybodaeth berthnasol, yn hyrwyddo adnoddau, yn cydlynu trafodaethau, yn ateb eich cwestiynau ac yn creu cyfleoedd i gydweithio.

## Mae themâu sesiynau galw heibio yn cynnwys:

- Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru
- Llais plant y Lluoedd Arfog
- Cyllid ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog
- Cynlluniau Gweithredu Awdurdodau Lleol
- SCiP Alliance Thriving Lives Toolkit.

*Yn ogystal â themâu ychwanegol ar adegau penodol o'r flwyddyn (h.y. Mis y Plentyn Milwrol, Diwrnod y Lluoedd Arfog)*



Gweler y manylion pellach, gan gynnwys yr amserlen lawn a'r cyfarwyddiadau ymuno yma

## Amserlen MIS MEHEFIN

03/06

04/06

14:00 Cynllun Gweithredu Awdurdodau Lleol

05/06

10:00 Diwrnod y Lluoedd Arfog

06/06

07/06

10:00 Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru

10/06

10:00 Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru

11/06

12/06

13/06

14/06

17/06

14:00 Diwrnod y Lluoedd Arfog

18/06

10:00 Llais plant y Lluoedd arfog  
14:00 Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru

19/06

10:00 Cyllid ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog  
15:00 Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru

20/06

10:00 Cynllun Gweithredu Awdurdodau Lleol  
14:00 SCiP Alliance TL Toolkit

21/06

24/06

25/06

10:00 Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru  
14:00 Llais plant y Lluoedd arfog

26/06

27/06

14:00 Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru

28/06

# Sesiynau galw heibio SSCE Cymru

NEWYDD

## Amserlen MIS GORFFENNAF

**01/07**

**14:00** Ysgolion sy'n  
Cefnogi'r Lluoedd Arfog  
Cymru

**02/07**

**03/07**

**10:00** Ysgolion sy'n  
Cefnogi'r Lluoedd Arfog  
Cymru

**04/07**

**10:00** SCiP Alliance Thriving  
Lives Toolkit

**05/07**

**08/07**

**14:00** Ysgolion sy'n  
Cefnogi'r Lluoedd Arfog  
Cymru

**09/07**

**14:00** Llais plant y lluoedd  
arfog

**10/07**

**10:00** Cynllun Gweithredu  
Awdurdodau Lleol

**11/07**

**15:00** Ysgolion sy'n  
Cefnogi'r Lluoedd Arfog  
Cymru

**12/07**

**15/07**

**14:00** Cyllid ar gyfer cefnogi  
plant y Lluoedd Arfog

**16/07**

**17/07**

**10:00** Ysgolion sy'n  
Cefnogi'r Lluoedd Arfog  
Cymru

**18/07**

**19/07**

**22/07**

**23/07**

**24/07**

**25/07**

**26/07**

**29/07**

**30/07**

**31/07**

**14:00** Cynllun Gweithredu  
Awdurdodau Lleol



Gweler y manylion pellach, gan gynnwys yr  
amserlen lawn a'r cyfarwyddiadau ymuno yma



# Cyllid...

## Cronfa Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg yng Nghymru

Yn 2024/25, gall ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru wneud cais am gyllid drwy gydol y flwyddyn, i gyflwyno prosiectau sy'n benodol i gefnogi plant milwyr mewn addysg, sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm yng Nghymru. Bydd y manylion llawn ar gael ym mis Medi 2024.



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

Brosiectau £1,000 – sy'n agored i bob ysgol ac awdurdod lleol yng Nghymru.

Brosiectau £3,000 – Agored i ysgolion sydd wedi cyflawni statws efydd Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru a'r holl awdurdodau lleol.



Gweler manylion proses gyllido a dogfennau cyfarwyddyd 2023/24 yma



## Cymorth rheoli achosion SSCE Cymru

Mae rheoli achosion ar gael i ysgolion sydd â phlentyn Lluoedd Arfog unigol neu nifer fach iawn o blant Lluoedd Arfog sydd ag angen penodol sy'n gysylltiedig ag effaith ffordd o fyw eu Lluoedd Arfog.

Gweler mwy o wybodaeth yma

## Ddogfen cyngor ariannol SSCE Cymru

Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyngor gan dîm SSCE Cymru ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol, i'w cynorthwyo wrth wneud cais am gyllid i gefnogi plant milwyr / cymuned y Lluoedd Arfog lleol.

Mae hefyd yn cynnwys rhestr wirio o gamau gweithredu awgrymedig i helpu wrth baratoi a chwblhau cais am gyllid a rhestr o syniadau ac awgrymiadau cyllido.

Ar gael yma